

## **Atodiad**

# Cyflwyno Taliadau am y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd Ionawr 2015

Asesiad o Effaith ar Gydraddodeb

# Cyflwyno Taliadau am y Gwastraff Casglu Gwastraff Gwyrdd

**Cyswllt:** Jim Espley  
Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu  
**Diweddarwyd:** 06/01/2015

## 1. Pa fath o gynnig sy'n cael ei asesu?

Adolygiad gwasanaeth neu gynnig ad-drefnu

## 2. Disgrifiwch bwrpas y cynnig hwn

Gwneud arbedion i gyfrannu tuag at angen y Cyngor i leihau ei gyllidebau.

## 3. A oes angen Asesiad llawn o Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynnig hwn?

*(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn gwaith uchod am ganllaw)*

<Please Select> oes

## 4. Darparwch grynodeb o'r camau a gymerwyd, yr wybodaeth a ddefnyddiwyd, i gynnal yr asesiad hwn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltiad a wnaed

*(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth uchod am ganllaw)*

Pan gafodd y system casglu biniau ar olwynion gwreiddiol ei gynllunio, cyflwynwyd y cynigion i'r cyngor llawn. Cynhaliodd y tîm Gwella corfforaethol arolwg preswylwyr hefyd a oedd yn canolbwyntio ar nifer o feysydd gwasanaeth gwahanol, gyda'r gwasanaeth sbwriel yn un ohonynt. Codwyd nifer o faterion gan gynnwys storio biniau a pha gymorth fyddai'n cael ei ddarparu i'r rhai na allai drin y biniau eu hunain. Canlyniad yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad oedd cyflwyno 'Cynllun Casglu â Chymorth' ffurfiol y Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth gyda casgliadau sbwriel ac ailgylchu yn unol ag anghenion deiliad y tŷ. Mae'r ffurflen casglu â chymorth wedi cael ei diweddarau i Adlewyrchu'r AEC hwn.

Mae cyflwyno codi tâl am y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd yn fesur effeithlonrwydd a gynlluniwyd i wireddu arbedion refeniw sylweddol. Mae'r gyfraith yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd, ac mae'n argymhellid yng Nglasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru.

Bydd y cynllun casglu â chymorth yn parhau o dan y system newydd.

Mae'r cynllun casglu â chymorth yn cytuno ar bwynt casglu gyda deiliad y tŷ ac mae'r criwiau casglu yn cael eu cyfarwyddo i godi'r biniau o'r pwynt hwn ac i'w dychwelyd i'r union bwynt hwnnw ar ôl eu gwagio. Mae'r criwiau casglu yn cael eu darparu gyda diweddariadau hyfforddiant rheolaidd a nodiadau atgoffa ar bwysigrwydd y cynllun casglu â chasglu a sut y dylai weithredu. Mae gyrwyr yn

cael eu cyfarwyddo i dalu sylw arbennig pan mae ganddynt staff 'asiantaeth' yn gweithio ar y rownd (gan na fyddant yn gyfarwydd â'r lleoliadau casglu â chymorth). Mae'r gwasanaeth gwastraff gwyrdd y codir tâl amdano yn gynllun optio i mewn, nid yw trigolion yn gorfod ymuno. Gall trigolion gompostio eu gwastraff gardd yn y cartref, a bydd Rheoli Gwastraff yn cynnig cymorth ac yn rhoi cyngor ar gompostio gartref. Gall trigolion fynd â gwastraff gardd i'w Canolfan Ailgyrchu Lleol yn rhad ac am ddim ble darperir help i gael gwared ar y gwastraff. Bydd Rheoli Gwastraff yn parhau i gynnig cynwysyddion compostio cartref i breswylwyr am bris gostyngol.

**5. A fydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig?**

*(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth am ddisgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig)*

Ychydig o gwmpas sydd gan y gwasanaeth casglu gwastraff gardd dewisol newydd i effeithio'n niweidiol ar unrhyw grŵp arbennig o bobl. Lle mae'n cael effaith ar grwpiau penodol, defnyddir rhyddhad gwasanaeth megis casgliadau â chymorth i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau'n hygrych i bawb.

**6. A fydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig?**

Bydd

**7. A yw'r cynnig wedi'i ddiwygio i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol posibl?**

<b>Ydi</b>	Mae'r gwasanaeth gwastraff gardd y telir amdano yn wasanaeth dewisol. Postiwyd gwybodaeth am y gwasanaeth newydd hwn i'r holl drigolion yn ystod Hydref 2014 gan esbonio'r taliadau cysylltiedig a sut i gymryd taliadau. Yn wreiddiol talu ar-lein oedd i fod yr unig ddull o dalu am y gwasanaeth. Fodd bynnag, cafodd hyn wedyn ei ymestyn i gael opsiynau ar gyfer talu dros y ffôn (drwy'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid), drwy Siopau Un Stop a llyfrgelloedd.
------------	--

**8. A ydych wedi nodi unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol bosibl ac / neu eu monitro?**

<b>Na</b>	Mae'r gwasanaeth gwastraff gardd y telir amdano yn wasanaeth dewisol. Postiwyd gwybodaeth am y gwasanaeth newydd hwn i'r holl drigolion yn ystod Hydref 2014 gan esbonio'r taliadau cysylltiedig a sut i gymryd taliadau. Yn wreiddiol talu ar-lein oedd i fod yr unig ddull o dalu am y gwasanaeth. Fodd bynnag, cafodd hyn wedyn ei ymestyn i gael opsiynau ar gyfer talu dros y ffôn (drwy'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid), drwy Siopau Un Stop a llyfrgelloedd.
-----------	--

Cam(au) Gweithredu	Swyddog	Dyddiad
Y prif fesur lliniaru yn erbyn effeithiau negyddol yw argaeledd/ defnydd o gynllun casglu â chymorth y cyngor. Bydd unrhyw breswlydd sy'n ei chael yn anodd i symud eu gwastraff i'r pwynt casglu yn cael	Jim Espley  Jim Espley ac	2016/04/01

casgliad "drws cefn". Egwyddor sylfaenol y gwasanaeth yw darparu system casglu sbwriel ac ailgylchu sy'n unol ag anghenion deiliad y tŷ.	Arweinydd Tîm Gweithredol  Jim Espley	Chwarterol (yn mynd rhagddo)  Chwarterol (yn mynd rhagddo)

## 9. Datganiad

Mae pob ymdrech rhesymol wedi'i wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith anghymesur posibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Caiff union effaith y cynnig ei adolygu yn y cam priodol

Dyddiad adolygu:	06/01/2015
------------------	------------

Enw Swyddog Arweiniol yr Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb	Dyddiad
Jim Espley	06/01/2015

**Nodwch y bydd angen i chi gyhoeddi canlyniad yr aseiad o effaith ar gydraddoldeb os byddwch yn canfod effaith sylweddol debygol.**